# Canllawiau Diogelu Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion sy’n agored i niwed

Urdd

Urdd Gobaith Cymru

## Os bydd ymddygiad cydweithiwr neu aelod o’r cyhoedd yn achosi pryder i chi:

- Peidiwch â rhoi eich pryderon o’r neilltu.
- Peidiwch â thrafod y mater gyda’r sawl sy’n achosi’r pryderon i chi.
- Peidiwch ag oedi cyn trafod eich pryderon gyda’r person perthnasol.
- Mae’n well eich bod chi wedi trafod y mater gyda rhywun sydd â’r profiad a’r cyfrifoldeb i asesu’r sefyllfa.

## Os oes gennych bryderon neu mae rhywun yn datgelu ei bod yn cael ei gam-drin, dilynwch y canllawiau isod:

- Dangoswch eich bod yn credu yr hyn maen nhw’n ei ddweud, a’ch bod chi’n cymryd ei honiadau o ddifri.
- Anogwch y plentyn/person ifanc/oedolyn i siarad, ond peidiwch ag awgrymu dim na holi unrhyw gwestiynau arweiniol.
- Eglurwch y camau y bydd rhaid eu cymryd.
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd gan fod gennym gyfrifoldeb i ddatgelu gwybodaeth i’r sawl sydd angen gwybod.
- Cofnodwch yr hyn a dywedwyd wrthych gan ddefnyddio’r union eiriau os oes modd.
- Gofalwch eich bod yn mynegi eich pryderon ar unwaith i’r cyfarwyddwr perthnasol.
- Peidiwch â thrafod y mater gyda’r sawl sy’n cael ei gyhuddo ar unrhyw gyfrif.

## Mae’n bwysig cofio:

- Mae cyfrifoldeb arnom ni i gyd i sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn perygl yn cael eu diogelu rhag niwed.
- Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn adnabod yr arwyddion ac yn dweud os bydd plentyn neu berson ifanc mewn perygl.
- Mae rhaid i chi ofalu nad yw eich ymddygiad chi yn achosi pryder, neu mewn perygl o gael ei gamddehongli.

## Manylion cyswllt i drafod neu i adrodd achosion posibl o gam-drin:

TRWY E-BOST: diogelu@urdd.org

RHIFAU FFÔN CYSWLLT:

**Pennaeth Gwersyll yr Urdd Pentre Ifan**
07974089670

**Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Marchanta a Materion Cyhoeddus**
07976 330360

**Cyfarwyddwr Ieuenctid a Chymuned**
01745 818600 / 07494 775897

**Cyfarwyddwr Gwersyll Glan-llyn**
01678 541000

**Cyfarwyddwr Gwersyll Llangrannog**
01239 652140

**Cyfarwyddwr Gwersyll Caerdydd**
02920 635672

**Cyfarwyddwr y Celfyddydau**
07824 998637

**Cyfarwyddwr Chwaraeon**
02922 405335 / 07944 621040

**Pennaeth Prentisiaethau**
02922 405347 / 07930 964625

**Llinell Gymorth yr NSPCC**
0808 800 5000

I adrodd delweddau anweddus ar y wê
**saferinternet.org.uk/hotline**